Rhif ymchwil gymdeithasol: 10/2026

Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2026

# Y Gronfa Cymorth Dewisol:
## adroddiad dadansoddi 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83715-948-2

**Y Gronfa Cymorth Dewisol:**
adroddiad dadansoddi 2025

Awdur: Anna Ardanaz-Badia

Yr Adroddiad Ymchwil Llawn: Ardanaz-Badia, A. (2026). Y Gronfa Cymorth Dewisol: Adroddiad dadansoddi 2025 Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR, 10/2026.

Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/y-gronfa-cymorth-dewisol-adroddiad-dadansoddi-2025

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Anna Ardanaz-Badia

Uned Tystiolaeth, Cymunedau, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru

## Cynnwys

Rhestr o'r tablau ........ 2

Rhestr o'r ffigurau ........ 3

Geirfa ........ 4

Crynodeb ........ 5

1. Cyflwyniad ........ 6

2. Dyfarniadau Taliadau mewn Argyfwng (EAP) i unigolion yn ôl oedran ........ 8

3. Gwahaniaethau rhwng Taliadau Cymorth mewn Argyfwng (EAP) a Thaliadau Cymorth Unigol (IAP) ........ 10

4. Budd-daliadau lles: Credyd Cynhwysol (UC), budd-daliadau gwaddol ac eraill ........ 12

5. Dangosyddion economaidd: parseli bwyd i oedolion, anweithgarwch economaidd a chyfradd incwm cyfartalog a wariwyd ar rent gan aelwydydd sy'n rhentu'n breifat ........ 14

6. Dangosyddion tlodi plant ........ 16

7. Casgliadau ........ 18

## Rhestr o'r tablau

Tabl 1: Nifer a chyfran y ceisiadau EAP yn ôl grŵp oedran o'i gymharu â chyfran cyfanswm poblogaeth Cymru yn ôl grŵp oedran, Mai 2024 i Ebrill 2025 .................................... 8
Tabl 2: Cyfran y boblogaeth sy'n cael dyfarniadau DAF neu fudd-daliadau penodol, fesul awdurdod lleol .................................................................................................. 12
Tabl 3: Cyfran y boblogaeth sy'n cael dyfarniadau DAF, a dangosyddion economaidd eraill, yn ôl awdurdod lleol.................................................................................................. 14
Tabl 4: Cyfran y boblogaeth sy’n cael dyfarniad DAF a dangosyddion tlodi plant, fesul awdurdod lleol .................................................................................................. 16

# Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1: Dosbarthiad nifer y dyfarniadau EAP a gymeradwywyd yn ôl grŵp oedran derbynwyr EAP, Mai 2024 i Ebrill 2025 ........ 9
Ffigur 2: Dosbarthiad nifer y ceisiadau am EAP ac IAP yn ôl oedran, Mai 2024 i Ebrill 2025 ........ 10
Ffigur 3: Dosbarthiad y ffyrdd o gael gafael ar ddyfarniad DAF yn ôl grŵp oedran, Mai 2024 i Ebrill 2025 ........ 11

# Geirfa

## Cronfa Cymorth Dewisol (DAF)

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) yng Nghymru yn gynllun argyfwng a ariennir gan y llywodraeth sydd wedi'i gynllunio i ddarparu cymorth ariannol i unigolion sy'n profi argyfwng ariannol a heb unrhyw fath arall o gefnogaeth. Mae'n cynnig dau fath o grant: Taliadau Cymorth mewn Argyfwng (EAP) a Thaliadau Cymorth i Unigolion (IAP).

## Taliad Cymorth mewn Argyfwng (EAP)

Mae Taliad Cymorth mewn Argyfwng yn grant a ddarperir gan y DAF er mwyn helpu pob unigolyn sy'n profi argyfwng ariannol annisgwyl, trwy ddarparu taliadau bach o arian parod ar frys i helpu i dalu am gostau hanfodol, fel bwyd, nwy, trydan, dillad neu deithio brys. Gall unrhyw unigolyn dros 16 oed sydd â chyfeiriad yng Nghymru wneud cais yn uniongyrchol.

## Prydau Ysgol am Ddim

Mae prydau ysgol am ddim ar gael i ddysgwyr cymwys mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Darparwyd y prydau hyn yn wreiddiol i blant ysgol gynradd ac uwchradd o aelwydydd incwm isel, gan sicrhau nad oedd unrhyw blentyn yn llwglyd pan oedd yn yr ysgol. Roedd cymhwysedd wedi'i seilio ar incwm yr aelwyd, a gallai rhieni wneud cais am Brydau Ysgol Am Ddim i'w plant os oedd y rhieni yn derbyn budd-daliadau penodol, fel Credyd Cynhwysol neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag Incwm. Fodd bynnag, newidiodd hyn ym mis Medi 2024 pan gwblhawyd cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i'r holl ddysgwyr mewn ysgolion cynradd a gynhelir (UPFSM). Nod y polisi yw mynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau mynediad deg i addysg. Mae'r rheolau cymhwysedd ar sail ar incwm yr aelwyd yn dal yn berthnasol i ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd a gynhelir.

## Taliad Cymorth i Unigolion (IAP)

Mae Taliad Cymorth i Unigolion yn grant a ddarperir gan y Gronfa Cymorth Dewisol sy’n ceisio helpu unigolion a allai fod yn agored i niwed, fel y rhai sy’n gadael cartref gofal neu sefydliad, neu’r unigolion hynny sy’n symud tŷ oherwydd trais domestig i fyw’n annibynnol mewn cartref newydd. Gellir ei ddefnyddio i ddarparu ‘nwyddau gwynion’ (er enghraifft, oergell, peiriant golchi) a dodrefn arall ar gyfer y cartref (er enghraifft, gwelyau, soffa) pan nad oes gan yr unigolyn unrhyw ffynonellau eraill o gyllid. Rhaid gwneud cais am ddyfarniad IAP trwy sefydliad Partner DAF Cymeradwy ac ni ellir gwneud cais amdano yn uniongyrchol gan unigolion.

## Credyd Cynhwysol

Mae credyd cynhwysol yn daliad sydd wedi'i gynllunio i helpu gyda chostau byw i unigolion ar incwm isel a'r rhai sydd allan o waith neu'n methu â gweithio. Disodlodd sawl budd-dal etifeddol ac yn cael ei dalu'n fisol (neu ddwywaith y mis i rai pobl yn yr Alban). Bydd unigolion cymwys yn derbyn 'lwfans safonol' ynghyd â thaliadau ychwanegol wedi'u seilio ar eu hamgylchiadau, megis costau tai neu anghenion iechyd.

# Crynodeb

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) yn gronfa argyfwng a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i chynllunio i ddarparu cymorth ariannol i unigolion sy'n profi argyfwng ariannol annisgwyl a heb unrhyw fath arall o gefnogaeth. Mae'n cynnig dau fath o grant: Taliadau Cymorth mewn Argyfwng (EAP) a Thaliadau Cymorth i Unigolion (IAP). Mae Taliadau Cymorth i Unigolion (IAP) yn helpu pobl i fyw yn annibynnol yn eu cartref neu mewn eiddo y maen nhw'n symud iddo. Mae Taliadau Cymorth mewn Argyfwng (EAP) yn helpu i dalu am gostau hanfodol, megis bwyd, nwy, trydan, dillad neu deithio mewn achos o argyfwng.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o dderbynwyr y DAF ac o ddangosyddion economaidd i asesu a wnaed dyfarniadau a rhoi taliadau lle'r oedd yr angen mwyaf yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025.

**Prif ganfyddiadau:**

- Rhoddwyd 175,000 o ddyfarniadau EAP i unigolion rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025, sy'n cyfateb i £14 miliwn. Mae hynny'n 59,000 llai o ddyfarniadau a £5 miliwn yn llai o werth o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Unigolion iau, rhwng 16 a 39 oed, a wnaeth dros 60% o gyfanswm y ceisiadau, a dim ond 5% a wnaed gan y rhai 60 oed a throsodd. Roedd y grŵp oedran 16 i 39 hefyd yn fwy tebygol o dderbyn mwy nag un dyfarniad EAP.
- O ran IAP, rhoddwyd 9,000 o ddyfarniadau i unigolion sef cyfanswm o werth £11 miliwn. Mae hynny'n 6,000 llai o ddyfarniadau a £4 miliwn yn llai o werth o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Roedd dyfarniadau IAP wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal ar draws grwpiau oedran o'u cymharu â dyfarniadau EAP, gyda'r rhai 50-70+ oed yn derbyn cyfran uwch o ddyfarniadau IAP nag EAP o gymharu â grwpiau iau.
- Roedd dyfarniadau EAP yn cyfrif am 95% o gyfanswm nifer y dyfarniadau DAF, tra bod IAP yn cynrychioli'r 5% sy'n weddill. Fodd bynnag, roedd y dosbarthiad o ran gwerth yn fwy cyfartal: Gwariwyd 55% o gyfanswm y gwerth ar ddyfarniadau EAP tra bod 45% wedi'i wario ar IAP. Roedd hyn oherwydd bod gwerth cyfartalog dyfarniad EAP yn £79 tra bod gwerth dyfarniad IAP yn £1,167 ar gyfartaledd.
- O ran hygyrchedd, cyrchodd 99% o unigolion ddyfarniadau DAF ar-lein. Pan ddefnyddiwyd ffôn, tueddodd hynny i fod ymhlith grwpiau oedran hŷn. Mewn ychydig o achosion, defnyddiwyd y post i gyflwyno cais.
- Mae'r dadansoddiad yn dangos bod cydberthynas rhwng yr awdurdodau lleol gyda'r nifer uchaf o ddyfarniadau EAP ac IAP fel cyfran o'u poblogaeth a'r rhan fwyaf o'r dangosyddion economaidd a archwiliwyd, gan nodi bod y dyfarniadau DAF wedi'u dyrannu i unigolion mewn ardaloedd sydd â'r anghenion mwyaf. Y pedwar awdurdod lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau'r pen o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng yn 2024-25 oedd Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf. Roedd gan yr awdurdodau lleol hyn hefyd gyfrannau uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, cartrefi sy'n derbyn Credyd Cynhwysol sydd â hawl i gael budd-dal plant, a phlant sy'n byw mewn teuluoedd ag incwm cymharol isel. Mae'r data hwn yn dangos bod cymorth y Gronfa yn rhoi cymorth i unigolion sy'n cael budd-daliadau ac i deuluoedd incwm isel sydd â phlant.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cronfa pan fetha popeth arall ar gyfer rhai sy'n profi argyfwng ariannol a heb unrhyw fath arall o gymorth yw'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'n un o amrywiaeth o ddulliau sy'n weithredol yng Nghymru sydd gan Lywodraethau Cymru a'r DU o roi cymorth i rai sy'n cael eu hallgau yn ariannol neu'n gymdeithasol neu drwy fath arall o allgau.

1.2 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer cynyddol o unigolion ac aelwydydd wedi dod yn agored i niwed yn ariannol gan fod eu gwytnwch ariannol wedi bod dan straen ers pandemig Covid-19 a'r argyfwng[1] costau byw. Mae'r rhai sydd wedi gweld eu sefyllfa ariannol yn cael ei erydu yn arbennig o sensitif i'r hinsawdd economaidd ehangach gan gynnwys wynebu heriau costau byw parhaus a chyfradd chwyddiant prisiau i ddefnyddwyr (fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, CPI), a arhosodd yn bennaf yn uwch na tharged Banc Lloegr o 2%[2] yn ystod 2024-25[3].

1.3 Mae'n debygol bod cyfuniad o'r ffactorau hyn, a'r cymorth ychwanegol a ddarperir gan lywodraethau Cymru a'r DU[4] i helpu i liniaru'r effeithiau andwyol ar grwpiau mewn sefyllfa fregus yn ariannol, wedi cael effaith uniongyrchol ar y galw ar y Gronfa Cymorth Dewisol. Efallai bod penderfyniadau eraill sy'n ymwneud â chymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yng Nghymru hefyd wedi effeithio ar lefel y galw ar y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) yn y cyfnod hwn. Rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025, y cyfnod a ddadansoddwyd yn yr adroddiad hwn, ni newidiodd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y DAF. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod cynyddodd Llywodraeth Cymru werth taliadau DAF ar gyfer tanwydd oddi ar y grid i adlewyrchu'r cynnydd cyffredinol ym mhrisiau ynni.

1.4 Mae adroddiad dadansoddi DAF yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025, ac mae ganddo ddau nod. Y cyntaf yw cyflwyno dadansoddiad o'r rhai sy'n cael cymorth gan DAF o ran eu hoedran a'r ffyrdd y mae unigolion yn cael mynediad at daliadau DAF. Yr ail yw edrych ar ddyfarniadau DAF yn 22 awdurdod lleol Cymru i weld a oes unrhyw batrymau newydd mewn dangosyddion economaidd penodol a allai egluro nifer y dyfarniadau ym mhob awdurdod lleol[5].

1.5 Mae’r data sy’n gysylltiedig â DAF yn cael eu rhoi i Lywodraeth Cymru gan ein darparwr gwasanaeth NEC Software Solutions UK. Nid yw'r wybodaeth reoli hon wedi bod drwy'r un broses sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol ac mae’n bosibl y bydd y data yn cael eu

---

[1] Mae adroddiad Tlodi yng Nghymru 2025 gan Sefydliad Joseph Rowntree yn dangos bod tlodi wedi dwysáu dros amser, gyda chyfran y bobl mewn tlodi dwfn iawn yn codi o 33% yn 1994–97 i 47% yn 2020–23. Yn ôl Cyngor ar Bopeth (2024–25), mae gan dros hanner y bobl sy'n ceisio cyngor ar ddyledion bellach "gyllidebau negyddol," sy'n golygu bod eu gwariant hanfodol yn fwy na'u hincwm. Mae hyn wedi cynyddu o ychydig dros draean yn 2019. Mae MoneyView Wales (2025) y Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn adrodd bod 29% o bobl yng Nghymru yn profi lles ariannol isel, yn cael trafferth talu gyda biliau/credyd neu ar ei hôl hi gyda'r taliadau.

[2] Chwyddiant a'r targed o 2% | Banc Lloegr.

[3] CYFRADD FLYNYDDOL Y CPIH 00:POB EITEM 2015=100 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[4] Er enghraifft, yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025, darparodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Gynghori Sengl, cymorth brys â bwyd a thanwydd, a chost y ddiwrnod ysgol. Darparodd Llywodraeth y DU y system budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd a’r Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes.

[5] Ar hyn o bryd, dim ond yn ôl grŵp oedran, ffyrdd o gyrchu taliadau DAF ac fesul awdurdod lleol yng Nghymru y mae modd edrych ar y data. Ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol, byddwn yn ystyried edrych ar ddadansoddiadau ychwanegol ee maint yr aelwyd, a dadansoddiad o ffigurau DAF dros amser, o gymryd y bydd digon o ddata ar gael heb newidiadau sylweddol o ran cymhwysedd.

diwygio yn y dyfodol[6]. Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at geisiadau cymeradwy (nid ceisiadau sydd wedi'u talu[7]) rhwng 1 Mai 2024 a 30 Ebrill 2025[8], ac eithrio lle nodir yn wahanol. Mae'r dadansoddiad yn adrannau 4, 5 a 6 yn cael ei gynnal mewn ffigurau y pen. Mae hyn yn golygu bod niferoedd absoliwt wedi cael eu rhannu yn ôl nifer yr unigolion neu nifer yr aelwydydd, neu nifer y plant yn ôl y gwahanol ddangosyddion a ddefnyddiwyd.

1.6 Mae'n bwysig nodi bod yr eglurhad tu cefn i nifer y dyfarniadau mewn awdurdod lleol wedi'i seilio nid ar un ffactor unigol ond ar gyfuniad o lawer o wahanol ddangosyddion  Mae rhai o'r dangosyddion hyn i'w gweld yma, megis "unigolion nad ydynt mewn cyflogaeth sy'n cael Credyd Cynhwysol", "cyfradd anweithgarwch economaidd", a "disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim”.

[6] I gael data lefel uchel yn rheolaidd ar daliadau’r Gronfa, ewch i StatsCymru.
[7] Mae hyn yn golygu y gall gwerth y taliadau yn yr adroddiad hwn fod yn wahanol i'r swm terfynol a dalwyd i dderbynwyr.
[8] Mae'r cyfnod amser yn wahanol i'r flwyddyn ariannol (Ebrill 2024 - Mawrth 2025) er mwyn iddo gyd-fynd â'r cyfnod a gwmpesir mewn adroddiadau blaenorol, felly roedd y ffigurau'n gymharol.

# 2. Dyfarniadau Taliadau mewn Argyfwng (EAP) i unigolion yn ôl oedran

2.1 Yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025, dyfarnwyd £14 miliwn i unigolion fel dyfarniadau EAP, sef £5 miliwn yn llai o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Mae'r £14 miliwn yn cyfateb i 175,000 o ddyfarniadau EAP a gymeradwywyd eleni o'i gymharu â 234,000 o ddyfarniadau EAP yn yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.

**Tabl 1: Nifer a chyfran y ceisiadau EAP yn ôl grŵp oedran o'i gymharu â chyfran cyfanswm poblogaeth Cymru yn ôl grŵp oedran, Mai 2024 i Ebrill 2025**


| Oedran (blynyddoedd) | Nifer yr unigolion | Cyfran yr unigolion â dyfarniad EAP yn ôl oedran (%) | Cyfran o gyfanswm poblogaeth Cymru (%) |
|---|---:|---:|---:|
| 16-29 | 94,958 | 26% | 17% |
| 30-39 | 123,998 | 35% | 13% |
| 40-49 | 80,536 | 22% | 11% |
| 50-59 | 39,485 | 11% | 13% |
| 60-69 | 16,105 | 4% | 13% |
| 70+ | 3,621 | 1% | 16% |

Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau DAF rhwng 1 Mai 2024 a 30 Ebrill 2025.

2.2 Mae Tabl 1 yn adrodd nifer cyfanswm y ceisiadau a wnaed gan unigolion ac nid dyfarniadau DAF a gymeradwywyd[9]. Mae Tabl 1 yn dangos wrth ddadansoddi'r ffigurau yn ôl oedran mai unigolion 30 i 39 oed wnaeth y gyfran uchaf o geisiadau EAP yn 2024-25, tua un o bob tri o'r holl geisiadau EAP. Gwnaeth unigolion iau, y rhai rhwng 16 a 39 oed, dros 60% o gyfanswm y ceisiadau. Dim ond 5% o geisiadau EAP a wnaed gan unigolion 60 oed a hŷn.

[9] Mae nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y dyfarniadau DAF a gymeradwywyd gan y gallai rhai ceisiadau gael eu gwrthod, felly bydd cyfanswm nifer y ceisiadau yn wahanol i gyfanswm nifer y dyfarniadau DAF a roddir.

**Ffigur 1: Dosbarthiad nifer y dyfarniadau EAP a gymeradwywyd yn ôl grŵp oedran derbynwyr EAP, Mai 2024 i Ebrill 2025**




Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau DAF rhwng 1 Mai 2024 a 30 Ebrill 2025.


2.3 Mae Ffigur 1 yn adrodd ar nifer y dyfarniadau a gymeradwywyd ac nid nifer y ceisiadau. O ran nifer y taliadau, mae Ffigur 1 yn dangos bod unigolion iau rhwng 16 a 39 oed yn fwy tebygol o dderbyn dau neu dri dyfarniad EAP o'i gymharu â grwpiau hŷn. Ar gyfer y rhai 50 oed a hŷn, gostyngodd nifer cyfartalog y taliadau wrth i oedran gynyddu.

# 3. Gwahaniaethau rhwng Taliadau Cymorth mewn Argyfwng (EAP) a Thaliadau Cymorth Unigol (IAP)

3.1 Yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025, dyfarnwyd £11 miliwn i unigolion fel dyfarniadau IAP, sef £4 miliwn yn llai o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Mae'r £11 miliwn yn cyfateb i 9,000 o ddyfarniadau IAP a gymeradwywyd rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025 o'i gymharu â 15,000 o ddyfarniadau IAP yn yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.

3.2. O ran dosbarthiad nifer y dyfarniadau DAF rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025, roedd 95% yn ddyfarniadau EAP tra bod 5% yn IAP. Fodd bynnag, roedd y dosbarthiad o ran gwerth yn fwy cyfartal: Gwariwyd 55% o'r gwerth ar ddyfarniadau EAP a gwariwyd 45% ar IAP. Mae hyn oherwydd bod gwerth cyfartalog dyfarniad EAP yn £79 tra bod gwerth cyfartalog dyfarniad IAP yn £1,167.

**Ffigur 2: Dosbarthiad nifer y ceisiadau am EAP ac IAP yn ôl oedran, Mai 2024 i Ebrill 2025**





Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau DAF rhwng 1 Mai 2024 a 30 Ebrill 2025.

3.3. Mae Ffigur 2 yn adrodd nifer cyfanswm y ceisiadau a wnaed gan unigolion ac nid dyfarniadau DAF a gymeradwywyd. Mae Ffigur 2 yn dangos bod dosbarthiad nifer y ceisiadau EAP ac IAP ar draws grwpiau oedran ychydig yn wahanol. Roedd ceisiadau EAP wedi'u crynhoi ymhlith unigolion iau, gyda'r rhai rhwng 16 a 39 oed yn gwneud dros 60% o'r holl geisiadau EAP. Mewn cymhariaeth, gwnaeth y rhai 50 oed neu'n hŷn gyfran fwy o geisiadau IAP nag EAP.

3.4 Mae dosbarthiad y dyfarniadau DAF a gymeradwywyd gan awdurdodau lleol a'r grŵp oedran yn dangos nad oedd y cymedr ar gyfer pob awdurdod lleol yn wahanol iawn i'r cymedr cyffredinol ar gyfer Cymru. Mewn geiriau eraill, mae dosbarthiad cyfanswm dyfarniadau'r Gronfa yn ôl oedran yn debyg ar draws yr holl awdurdodau lleol.

**Ffigur 3: Dosbarthiad y ffyrdd o gael gafael ar ddyfarniad DAF yn ôl grŵp oedran, Mai 2024 i Ebrill 2025**




Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau DAF rhwng 1 Mai 2024 a 30 Ebrill 2025.

3.5 Mae Ffigur 3 yn adrodd ar nifer y ceisiadau a wnaed gan unigolion ac nid dyfarniadau DAF a gymeradwywyd. Mae Ffigur 3 yn dangos bod 99% o unigolion wedi cyrchu dyfarniadau DAF ar-lein. Fodd bynnag, wrth gymharu pwy â'u cyrchodd ar-lein yn erbyn pwy wnaeth dros y ffôn, gwelsom fod grwpiau oedran hŷn (y rhai 40 oed a hŷn) yn tueddu i gael mynediad dros y ffôn yn fwy mewn cymhariaeth â grwpiau oedran iau (16 i 39). Gellir anfon ceisiadau DAF drwy'r post hefyd ond roedd hynny'n llai na 0.01% o'r holl geisiadau a dderbyniwyd.

# 4. Budd-daliadau lles: Credyd Cynhwysol (UC), budd-daliadau gwaddol ac eraill

4.1 Yn adrannau 4, 5 a 6, rydym yn nodi'r awdurdodau lleol gyda'r dyfarniadau EAP ac IAP uchaf a gymeradwywyd y pen, a gafwyd drwy rannu'r dangosyddion hyn â phoblogaeth[10] pob awdurdod lleol. Yna rydym yn cymharu'r celloedd sydd wedi'u graddliwio ar draws y dyfarniadau DAF a dangosyddion economaidd eraill i ddod o hyd i batrymau perthnasol[11]. Mae'r celloedd wedi'u graddliwio yn dangos gwerthoedd uwch na'r cyfartaledd[12] ar gyfer y dangosydd hwnnw.

**Tabl 2: Cyfran y boblogaeth sy'n cael dyfarniadau DAF neu fudd-daliadau penodol, fesul awdurdod lleol**

Defnyddir rhywfaint o fyr-law yn y tabl hwn, [u] = yn uwch na'r cyfartaledd.

| Awdurdod Lleol | DAF EAP | DAF IAP | Unigolion ar Gredyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth | Taliad Annibyniaeth Personol | Aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol â hawl i dai |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 5% | 0.3% | 13% | 13% | 12% |
| Gwynedd | 5% | 0.3% | 10% | 10% | 11% |
| Conwy | 5% | 0.3% | 13% | 14% | 11% |
| Sir Ddinbych | 6% | [u] 0.5% | [u] 15% | [u] 16% | 13% |
| Sir y Fflint | 5% | 0.3% | 11% | 12% | 11% |
| Wrecsam | [u] 8% | [u] 0.4% | 13% | 13% | [u] 15% |
| Powys | 3% | 0.2% | 10% | 12% | 9% |
| Ceredigion | 2% | 0.3% | 10% | 11% | 10% |
| Sir Benfro | 4% | 0.2% | 13% | 14% | 12% |
| Sir Gaerfyrddin | 5% | [u] 0.4% | [u] 14% | [u] 16% | 12% |
| Abertawe | [u] 7% | 0.3% | [u] 14% | [u] 15% | [u] 15% |
| Castell-nedd Port Talbot | [u] 8% | [u] 0.4% | [u] 17% | [u] 19% | [u] 15% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | [u] 7% | 0.3% | [u] 14% | [u] 16% | 13% |
| Bro Morgannwg | 6% | [u] 0.4% | 11% | 12% | 11% |
| Caerdydd | [u] 7% | [u] 0.5% | 13% | 10% | [u] 15% |
| Rhondda Cynon Taf | [u] 9% | 0.3% | [u] 15% | [u] 17% | [u] 14% |
| Merthyr Tudful | [u] 13% | [u] 0.5% | [u] 17% | [u] 20% | [u] 17% |
| Caerffili | [u] 8% | 0.3% | [u] 16% | [u] 19% | [u] 14% |
| Blaenau Gwent | [u] 12% | [u] 0.4% | [u] 19% | [u] 21% | [u] 17% |
| Tor-faen | [u] 8% | 0.3% | [u] 17% | [u] 18% | [u] 16% |
| Sir Fynwy | 3% | 0.3% | 9% | 10% | 9% |
| Casnewydd | [u] 9% | [u] 0.5% | [u] 15% | 13% | [u] 16% |

[10] Er mwyn cyfrifo'r cyfrannau yn nhablau 2, 3 a 4, gwnaethom ddefnyddio grwpiau ychydig yn wahanol o'r boblogaeth ar gyfer pob dangosydd, yn dibynnu ar bwy oedd yn gymwys a sut cyfrifwyd y dangosydd. Ar gyfer gwobrau DAF fe wnaethom ddefnyddio unigolion 16 oed a hŷn. Ar gyfer y gweddill, fe wnaethom ddefnyddio pa bynnag ystod oedran o'r boblogaeth oedd yn berthnasol.
[11] Sylwer, yn nhablau 2, 3 a 4 dylid dim ond gwneud y gymhariaeth ar a yw unrhyw gelloedd wedi'u hamlygu ai peidio. Nid yw'n briodol cymharu'r niferoedd ar draws colofnau oherwydd gallai'r rhain gwmpasu gwahanol gyfnodau amser a grwpiau o'r boblogaeth.
[12] Cyfrifwyd y cyfartaledd ar gyfer pob dangosydd gan ddefnyddio cyfran y boblogaeth ar gyfer pob awdurdod lleol, oherwydd problemau ynghylch argaeledd data. Dylid adolygu hyn yn y dyfodol.

Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau DAF rhwng 1 Mai 2023 a 30 Ebrill 2025; Unigolion ar Gredyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth: Ystadegau budd-daliadau DWP (Stat-Xplore) Ebrill 2025; Taliad Annibyniaeth Bersonol ac Aelwydydd ar UC sydd â hawl tai: Ystadegau budd-daliadau DWP (Stat-Xplore) Tachwedd 2024; Amcangyfrifon aelwydydd i ddeillio amcangyfrifon yn ôl aelwydydd: Aelwydydd yn ôl Awdurdod Lleol a Blwyddyn , Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2024; Amcangyfrifon poblogaeth a ddefnyddir i ddeillio amcangyfrifon y pen a gymerwyd o Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mehefin 2024.

4.2 Mae'r tabl a ganlyn (Tabl 2) yn dangos nifer y dyfarniadau EAP ac IAP fel cyfran o'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol, ochr yn ochr â'r gyfran o'r boblogaeth sy'n cael Credyd Cynhwysol (UC) nad ydynt mewn cyflogaeth; sy'n cael Taliad Annibyniaeth Bersonol ac aelwydydd sy'n cael UC â hawl i dai.

4.3 Yr awdurdodau lleol gyda'r gyfran uchaf o ddyfarniadau EAP y pen oedd Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd. Roedd gan bob un o'r pedwar awdurdod lleol gyfrannau uwch na'r cyfartaledd o unigolion sy'n derbyn CC heb gyflogaeth ac o aelwydydd yn cael CC â hawl i dai. Roedd gan Flaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf hefyd gyfran uwch na'r cyfartaledd o unigolion ar Daliad Annibyniaeth Bersonol (nid felly Casnewydd). Yn dilyn y pedwar awdurdod lleol yma yn agos roedd Castell-nedd Port Talbot, Torfaen a Chaerffili hefyd gyda dyfarniadau EAP uwch na'r cyfartaledd yn ogystal â'r dangosyddion budd-daliadau lles eraill.

4.4 Sir Ddinbych, Caerdydd, Merthyr Tudful a Chasnewydd oedd yr awdurdodau lleol gyda'r gyfran uchaf o ddyfarniadau IAP y pen. Dangosodd Sir Ddinbych, Merthyr Tudful a Chasnewydd hefyd gyfran uwch na'r cyfartaledd o unigolion ar Gredyd Cynhwysol nad oeddent mewn cyflogaeth. Yn ogystal, roedd Sir Ddinbych a Merthyr Tudful yn cyflwyno cyfran uwch na'r cyfartaledd o unigolion sy'n derbyn Taliad Annibyniaeth Bersonol. Roedd gan Gaerdydd, Merthyr Tudful a Chasnewydd gyfran uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd ar UC â hawl i dai. Mae'n werth nodi bod Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot hefyd yn dangos cyfrannau uwch na'r cyfartaledd o ddyfarniadau IAP y pen, ochr yn ochr â chyfrannau uwch na'r cyfartaledd ar y rhan fwyaf o'r dangosyddion eraill.

# 5. Dangosyddion economaidd: parseli bwyd i oedolion, anweithgarwch economaidd a chyfradd incwm cyfartalog a wariwyd ar rent gan aelwydydd sy'n rhentu'n breifat

**Tabl 3: Cyfran y boblogaeth sy'n cael dyfarniadau DAF, a dangosyddion economaidd eraill[13], yn ôl awdurdod lleol**

Defnyddir rhywfaint o fyr-law yn y tabl hwn, [u] = yn uwch na'r cyfartaledd.

| Awdurdod Lleol | DAF EAP | DAF IAP | Parseli bwyd Trussell a roddwyd i oedolion | Cyfradd anweithgarwch economaidd | Cyfran o incwm cyfartalog a wariwyd ar rent gan aelwydydd sy'n rhentu'n breifat |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 5% | 0.3% | [u] 6% | 16% | 21% |
| Gwynedd | 5% | 0.3% | 4% | 19% | [u] 26% |
| Conwy | 5% | 0.3% | 2% | [u] 20% | [u] 28% |
| Sir Ddinbych | 6% | [u] 0.5% | [u] 5% | 17% | 24% |
| Sir y Fflint | 5% | 0.3% | [u] 5% | 14% | 24% |
| Wrecsam | [u] 8% | [u] 0.4% | [u] 7% | 16% | 24% |
| Powys | 3% | 0.2% | 3% | [u] 21% | 21% |
| Ceredigion | 2% | 0.3% | 1% | 17% | 24% |
| Sir Benfro | 4% | 0.2% | 2% | 18% | 22% |
| Sir Gaerfyrddin | 5% | [u] 0.4% | [u] 5% | [u] 21% | 21% |
| Abertawe | [u] 7% | 0.3% | 4% | [u] 21% | [u] 26% |
| Castell-nedd Port Talbot | [u] 8% | [u] 0.4% | [u] 6% | [u] 25% | 18% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | [u] 7% | 0.3% | 4% | [u] 24% | 23% |
| Bro Morgannwg | 6% | [u] 0.4% | [u] 5% | 16% | [u] 32% |
| Caerdydd | [u] 7% | [u] 0.5% | 4% | 16% | [u] 33% |
| Rhondda Cynon Taf | [u] 9% | 0.3% | [u] 6% | [u] 26% | 23% |
| Merthyr Tudful | [u] 13% | [u] 0.5% | [u] 5% | [u] 25% | [u] 27% |
| Caerffili | [u] 8% | 0.3% | [u] 7% | [u] 21% | 23% |
| Blaenau Gwent | [u] 12% | [u] 0.4% | 3% | [u] 27% | 21% |
| Tor-faen | [u] 8% | 0.3% | [u] 5% | [u] 22% | [u] 25% |
| Sir Fynwy | 3% | 0.3% | [u] 5% | 16% | [u] 29% |
| Casnewydd | [u] 9% | [u] 0.5% | 3% | [u] 20% | [u] 30% |

Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau DAF rhwng 1 Mai 2024 a 30 Ebrill 2025; Nifer y parseli bwyd a ddosbarthwyd i oedolion: Ystadegau banc bwyd diwedd blwyddyn | Trussell 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025; Cyfradd anweithgarwch economaidd: Cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardal leol a blwyddyn yng Nghymru (llyw.cymru) Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2025,Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: crynodeb o'r gweithgarwch economaidd | Ystadegau Cymru; Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: crynodeb o'r gweithgarwch economaidd | Ystadegau Cymru[14] Cyfran yr incwm cyfartalog a wariwyd ar rent

[13] Dim ond fel dangosydd y dylid ddefnyddio ffigurau Trussell ynghylch parseli bwyd: i fanciau bwyd yn rhwydwaith Trusell y maent yn berthnasol yn unig, felly ni ellir eu defnyddio fel esboniad llawn o raddfa'r defnydd a wneir o fanciau bwyd yng Nghymru, nac mewn awdurdodau lleol unigol.
[14] Sylwer, ar hyn o byd mae problemau gyda dibynadwyedd ystadegau'r ONS ar y farchnad lafur, gan gynnwys data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth oherwydd samplau llai o faint. Mae'n dal i fod yn briodol defnyddio'r ystadegau hyn, fodd bynnag dylai defnyddwyr nodi'r cynnydd mewn ansicrwydd mewn amcangyfrifon sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Dyma ddatganiad y Swyddfa Rheoleiddio

gan aelwydydd sy'n rhentu'n breifat: Fforddiadwyedd rhent preifat, Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol , 2024. Amcangyfrifon poblogaeth a ddefnyddir i ddeillio amcangyfrifon y pen a gymerwyd o Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mehefin 2024.

5.1 Mae Tabl 3 yn dangos nifer y dyfarniadau EAP ac IAP fel cyfran o'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol, ochr yn ochr â nifer y parseli bwyd a ddosbarthwyd i oedolion fel cyfran o'r boblogaeth, y gyfradd anweithgarwch economaidd yn yr awdurdod lleol a'r gyfran o incwm cyfartalog a wariwyd ar rent gan aelwydydd sy'n rhentu'n breifat. Mae'r celloedd wedi'u graddliwio yn cyfateb i werthoedd uwch na'r cyfartaledd.

5.2 Caerffili, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Wrecsam yw'r awdurdodau lleol sydd â chyfran uwch na'r cyfartaledd o ddyfarniadau EAP a hefyd cyfran uwch na'r cyfartaledd o barseli a ddosbarthir i oedolion. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod y ffigurau hyn yn cyfeirio at ganran y parseli bwyd ac nid at ganran yr oedolion sy'n derbyn parseli bwyd (gallai fod parseli lluosog fesul oedolyn).

5.3 Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot a Merthyr Tudful oedd yr awdurdodau lleol gyda'r cyfraddau anweithgarwch economaidd uwch na'r cyfartaledd, a oedd hefyd yn dangos cyfran uwch na'r cyfartaledd o ddyfarniadau EAP. Roedd gan y rhan fwyaf ohonynt ddyfarniadau IAP uwch na'r cyfartaledd (ac eithrio Rhondda Cynon Taf) a chyfrannau uchel o barseli bwyd a roddwyd i oedolion (ac eithrio Blaenau Gwent).

5.4 Mae’r term anweithgarwch economaidd yn dynodi unigolion nad ydynt yn rhan o'r farchnad lafur, nad ydynt wedi chwilio am waith yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf ac nad ydynt ar gael i ddechrau gweithio. Mae'n cynnwys myfyrwyr, pensiynwyr, pobl sy'n gofalu am deulu neu gartref, y rhai â salwch a'r rhai sy'n cael eu dosbarthu'n weithwyr sydd wedi anobeithio. Amcangyfrifir y gyfradd anweithgarwch economaidd drwy rannu lefel yr anweithgarwch ar gyfer y rhai rhwng 16 a 64 oed â’r boblogaeth ar gyfer y grŵp oedran hwnnw. At ddibenion cymharu, roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru (ac eithrio myfyrwyr[15]) yn 19.9% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025[16].

5.5 Mae Caerdydd, Bro Morgannwg, Casnewydd a Merthyr Tudful yn rhai o'r awdurdodau lleol sydd â chyfran uwch na'r cyfartaledd o incwm cyfartalog a wariwyd ar rent gan aelwydydd sy'n rhentu'n breifat. Mae ganddynt hefyd o leiaf ddau ddangosydd arall yn uwch na'r cyfartaledd, gyda Chasnewydd â phedwar a Merthyr Tudful â phob un ohonynt.

---

Ystadegau ar yr amcangyfrifon a ddeilliwyd o Arolwg y Gweithlu a’r rhai a ddeilliwyd o’r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth.

[15] Yn yr achos hwn, rydym yn defnyddio’r gyfradd anweithgarwch nad yw’n cynnwys myfyrwyr, gan nad yw DAF yn derbyn ceisiadau gan fyfyrwyr am fod ganddynt fynediad at gronfeydd cymorth eraill.
[16] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: crynodeb o weithgarwch economaidd.

# 6. Dangosyddion tlodi plant

**Tabl 4: Cyfran y boblogaeth sy'n cael dyfarniad DAF a dangosyddion tlodi plant, fesul awdurdod lleol**

Defnyddir rhywfaint o fyr-law yn y tabl hwn, [u] = yn uwch na'r cyfartaledd.

| Awdurdod Lleol | DAF EAP | DAF IAP | Disgyblion â hawl i Brydau Ysgol Am Ddim | Parseli bwyd Trussell a roddwyd i blant | Aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol â hawl i gael budd-dâl Plant | Plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm cymharol isel |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 5% | 0.3% | 16% | [u] 12% | 10% | [u] 26% |
| Gwynedd | 5% | 0.3% | 12% | [u] 9% | 9% | 23% |
| Conwy | 5% | 0.3% | 17% | 4% | 10% | [u] 25% |
| Sir Ddinbych | 6% | [u] 0.5% | [u] 19% | [u] 10% | [u] 11% | [u] 25% |
| Sir y Fflint | 5% | 0.3% | [u] 19% | [u] 12% | 10% | 20% |
| Wrecsam | [u] 8% | [u] 0.4% | [u] 19% | [u] 11% | [u] 12% | 22% |
| Powys | 3% | 0.2% | 11% | 8% | 7% | 22% |
| Ceredigion | 2% | 0.3% | 13% | 3% | 8% | [u] 24% |
| Sir Benfro | 4% | 0.2% | 16% | 5% | 10% | [u] 26% |
| Sir Gaerfyrddin | 5% | [u] 0.4% | 15% | [u] 10% | 10% | [u] 24% |
| Abertawe | [u] 7% | 0.3% | [u] 19% | 8% | [u] 11% | 21% |
| Castell-nedd Port Talbot | [u] 8% | [u] 0.4% | [u] 23% | [u] 10% | [u] 12% | 23% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | [u] 7% | 0.3% | [u] 21% | 7% | [u] 11% | 23% |
| Bro Morgannwg | 6% | [u] 0.4% | 14% | [u] 10% | 9% | 19% |
| Caerdydd | [u] 7% | [u] 0.5% | [u] 22% | 8% | [u] 11% | 22% |
| Rhondda Cynon Taf | [u] 9% | 0.3% | [u] 20% | [u] 11% | [u] 12% | [u] 27% |
| Merthyr Tudful | [u] 13% | [u] 0.5% | [u] 22% | [u] 9% | [u] 14% | [u] 27% |
| Caerffili | [u] 8% | 0.3% | [u] 21% | [u] 13% | [u] 12% | [u] 25% |
| Blaenau Gwent | [u] 12% | [u] 0.4% | [u] 23% | 5% | [u] 14% | [u] 31% |
| Tor-faen | [u] 8% | 0.3% | [u] 22% | 8% | [u] 13% | [u] 25% |
| Sir Fynwy | 3% | 0.3% | 11% | 8% | 7% | 16% |
| Casnewydd | [u] 9% | [u] 0.5% | [u] 19% | 4% | [u] 13% | [u] 26% |

Ffynhonnell: data NEC ar ddyfarniadau DAF rhwng 1 Mai 2024 a 30 Ebrill 2025; Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim: Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2025 | LLYW. CYMRU, Tabl 11: Mae disgyblion y gwyddys eu bod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, Ionawr 2025; Nifer y parseli bwyd a ddosbarthwyd i blant: Ystadegau banc bwyd diwedd blwyddyn | Trussell 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025; Aelwydydd ar UC sydd â Hawl Plant: Ystadegau budd-daliadau DWP (Stat-Xplore) Chwefror 2025; Plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm cymharol isel (cyn costau tai): Ystadegau budd-daliadau DWP (Stat-Xplore) 2023/24; Amcangyfrifon aelwydydd i ddeillio amcangyfrifon yn ôl aelwyd: Aelwydydd yn ôl Awdurdod Lleol a Blwyddyn, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2024; Amcangyfrifon poblogaeth a ddefnyddir i ddeillio amcangyfrifon y pen a gymerwyd o Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mehefin 2024.

6.1 Mae Tabl 4 yn dangos nifer y dyfarniadau EAP ac IAP fel cyfran o'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol, ynghyd â chyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim[17], nifer y parseli bwyd sy'n cael eu dosbarthu i blant fel cyfran o'r boblogaeth, cyfran yr

[17] Cwblhawyd cyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd ym mis Medi 2024. Fodd bynnag, nid yw'r ffordd yr adroddir am gymhwysedd Prydau Ysgol Am Ddim wedi newid.

aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol sydd â hawl i gael budd-dal plant, a chyfran y plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol[18]. Mae'r celloedd wedi'u graddliwio yn cyfateb i werthoedd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y dangosydd hwnnw.

6.2 Roedd gan yr awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf o ddyfarniadau EAP fel cyfran o'r boblogaeth - Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd - gyfraddau uwch na'r cyfartaledd mewn o leiaf 3 o'r 4 dangosydd tlodi plant. Dyma gyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yr aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol â hawl i fudd-dal plant a phlant sy'n byw mewn teuluoedd incwm cymharol isel.

6.3 Dangosodd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful gyfran uwch  na'r cyfartaledd y pen o barseli bwyd a ddanfonwyd i blant hefyd. Yr awdurdodau lleol eraill sydd â chyfradd uwch na'r cyfartaledd o barseli bwyd a roddir i blant yw Caerffili, Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam, sydd hefyd â chyfran uchel o ddyfarniadau EAP fesul pen yn ogystal â chyfran uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion cymwys am brydau ysgol am ddim ac o aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol â hawl i fudd-dal plant.

6.4 O'r awdurdodau lleol sydd â'r gyfran uchaf o ddyfarniadau IAP y pen, roedd gan Ferthyr Tudful, Casnewydd a Sir Ddinbych hefyd rai o'r cyfrannau uchaf na'r cyfartaledd o blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm cymharol isel ledled Cymru ac o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

[18] Aelwydydd sy’n ennill llai na 60% o’r incwm canolrifol am y cyfnod dan sylw (yn yr achos hwn 2023-24).

# 7. Casgliadau

7.1 Yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025, dyfarnwyd £14 miliwn i unigolion ar ffurf 175,000 o ddyfarniadau EAP. Mae hynny'n 59,000 llai o ddyfarniadau a £5 miliwn yn llai o werth o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Unigolion iau, rhwng 16 a 39 oed, a wnaeth dros 60% o gyfanswm y ceisiadau, a dim ond 5% a wnaed gan y rhai 60 oed a throsodd. Roedd y grŵp oedran 16 i 39 hefyd yn fwy tebygol o dderbyn mwy nag un dyfarniad EAP.

7.2 O ran dyfarniadau IAP, rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025, dyfarnwyd £11 miliwn i unigolion, £4 miliwn yn llai nag yn yr un cyfnod flwyddyn ynghynt. Roedd yr £11 miliwn yn cyfateb i dros 9,000 o ddyfarniadau IAP, 6,000 llai nag yn yr un cyfnod flwyddyn ynghynt. Roedd dyfarniadau IAP wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal ar draws grwpiau oedran o'u cymharu â dyfarniadau EAP, gyda'r rhai 50-70+ oed yn derbyn cyfran uwch o ddyfarniadau IAP nag EAP o gymharu â grwpiau iau.

7.3 O ran dosbarthiad dyfarniadau DAF rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025, roedd dyfarniadau EAP yn cyfrif am 95% o gyfanswm nifer y dyfarniadau DAF tra bod IAP yn cynrychioli'r 5% sy'n weddill. Fodd bynnag, roedd y dosbarthiad o ran gwerth yn fwy cyfartal: Gwariwyd 55% o gyfanswm y gwerth ar ddyfarniadau EAP tra bod 45% wedi'i wario ar IAP. Roedd hyn oherwydd bod gwerth cyfartalog dyfarniad EAP yn £79 tra bod gwerth dyfarniad IAP yn £1,167 ar gyfartaledd.

7.4 O ran hygyrchedd, cyrchodd 99% o unigolion ddyfarniadau DAF ar-lein. Pan ddefnyddiwyd ffôn, tueddodd hynny i fod ymhlith grwpiau oedran hŷn. Mewn ambell i achos, defnyddiwyd y post.

7.5 Yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2024 ac Ebrill 2025, roedd dosbarthiad cyfanswm dyfarniadau DAF yn ôl oedran yn debyg ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.

7.6 Mae'r dadansoddiad yn dangos bod cydberthynas rhwng yr awdurdodau lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau EAP ac IAP fel cyfran o'r boblogaeth a'r rhan fwyaf o'r dangosyddion economaidd a archwiliwyd, gan ddangos bod y dyfarniadau DAF wedi'u dyrannu i unigolion mewn ardaloedd sydd â'r anghenion mwyaf. Y pedwar awdurdod lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau'r pen o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng yn 2024-25 oedd Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf. Roedd gan yr awdurdodau lleol hyn hefyd gyfrannau uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, cartrefi sy'n derbyn Credyd Cynhwysol sydd â hawl i gael budd-dal plant, a phlant sy'n byw mewn teuluoedd incwm cymharol isel. Mae'r data hwn yn dangos bod cymorth DAF yn rhoi cymorth i unigolion sy'n cael budd-daliadau a theuluoedd incwm isel sydd â phlant.